Elizabeth Fry: 1780–1845

Ffrind y carcharorion

Dewrder / dyfalbarhad

Ydych chi wedi edrych yn ofalus ar gefn y papur pum punt? Llun pwy sydd ar y dde? Ydi, mae ei henw o dan y llun. Cofiwch, nid dyma oedd ei henw bedydd. Fe'i bedyddiwyd â'r enw Betsy Gurney. Roedd hi'n dod o gartref cyfoethog iawn.

Pan oedd yn blentyn roedd hi bob amser yn gwisgo dillad lliwgar. Roedd ganddi glogyn sgarlad ac esgidiau porffor gyda charrai coch. Byddai pobl yr ardal yn edrych ddwywaith ar Betsy Gurney. Dyma stori am Betsy, neu Elizabeth Fry, fel y daeth i gael ei hadnabod, yn helpu carcharorion yn y carchar yn Llundain.

Bob bore byddai Llywodraethwr y carchar yn cael gair efo'r gweithwyr i gyd. Bob bore byddai'r un cwestiwn, "Pwy sydd am fynd i mewn i garchar y merched?" Doedd neb eisiau wynebu'r merched.

Roedd degau o ferched yn byw gyda'i gilydd. Byddai'r merched yn ymladd â'i gilydd. Os byddai rhywun dieithr yn mynd i mewn at y merched, fe fydden nhw i gyd yn ymosod ar y person hwnnw. Doedd neb yn glanhau'r ystafelloedd. Doedd yna ddim dŵr i'r merched ymolchi, ac roedd y plant bach yn cerdded ynghanol budreddi. Doedd neb yn gofalu am y merched. Roedd ar bawb eu hofn.

Un diwrnod, ar ôl iddi briodi â dyn cyfoethog o'r enw Joseph Fry, fe ddywedodd wrth ei gŵr, "Rydw i am fynd i weithio i garchar Newgate yn Llundain. Rydw i'n gwybod ei fod yn waith anodd iawn, ond rwy'n siŵr efo help Duw y byddaf yn sicr o lwyddo." Ac felly y bu.

Bob dydd o'r wythnos byddai Elizabeth yn treulio ei hamser yn y carchar. Ar y cychwyn roedd y merched yn gas iawn tuag ati. Roedd rhai yn rhegi, eraill yn poeri arni ac ambell un yn ymosod arni.

Dechreuodd ar ei gwaith trwy ddysgu'r mamau sut i ofalu am eu plant. Byddai hi ei hun yn magu rhai o'r plant er mwyn i'r mamau gael cyfle i ddarllen a sgwennu. Bob dydd byddai Elizabeth yn adrodd storïau o'r Beibl. Ar y dechrau, doedd y merched yn gwrando dim arni. Ond, o dipyn i beth, mi fydden nhw'n eistedd

ar y llawr yn gwrando ac yn mwynhau'r hanesion. Fe fyddai hi'n dweud wrth y merched fod Duw wedi ei hanfon i weithio yn eu plith.

"Dewch i ni helpu'n gilydd. Gyda'n gilydd fe allwn ni wneud y carchar yn lle gwell. Os gofynnwn, bydd Duw yn sicr o'n helpu."

Byddai yn gweddïo efo'r merched. Pan fyddai Elizabeth yn gweddïo, byddai rhai o'r merched yn crio. Er mwyn helpu'r merched, daeth Elizabeth â rhai o'i ffrindiau i'w helpu yn y carchar. Byddai'r ffrindiau ac Elizabeth yn gofalu am y plant bach, yn gwnïo, yn trwsio dillad ac yn dysgu'r carcharorion i ddarllen a sgwennu. Am 30 o flynyddoedd y bu Elizabeth a'i ffrindiau yn helpu'r carcharorion yng ngharchar Newgate. Fe ddangosodd gariad Iesu Grist iddyn nhw.

"...bûm yng ngharchar a daethoch ataf."
Mathew 25:37

Cariad wyt ti,
a gwelir yr holl ddioddef,
anghyfiawnder a thrueni,
sy'n teyrnasu yn y byd hwn.
Edrych yn drugarog ar y tlawd,
y gorthrymedig, a phawb sydd o dan faich
camwedd, llafur neu alar.
Llanw'n calonnau â thosturi dwfn at y rhai sy'n dioddef
a phrysura ddyfodiad dy deyrnas,
teyrnas cyfiawnder a gwirionedd.
Amen.
Eugène Bersier (1831–1889)

Oes yna ffordd well i drin carcharorion na'u cloi o fewn pedair wal?
Oni fyddai'n well iddyn nhw wneud gwaith gwirfoddol yn y gymuned?

Elizabeth Fry: 1780–1845